



16eg o Fawrth 2020

Annwyl riant / gwarcheidwaid,

**Parthed: Coronavirus (COVID-19)**

Yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin, rydym yn cymryd iechyd a diogelwch ein disgyblion o ddifri ac yn sicrhau mae'r sefyllfa bresennol yn ofid i chithau ac i ninnau fel ysgol. Er nad oes dim achosion wedi eu cofnodi gyda ni ar hyn o bryd, rydym yn dymuno tawelu eich meddwl ein bod yn gweithredu camau priodol i ddiogelu ein cymuned.

Yn ol y dystiolaeth, **ychydig iawn o effaith mae'r feirws hyn yn cael ar blant**. Fodd bynnag, rydym fel ysgol yn ymwybodol bod trosglwyddo y feirws i oedolion, yn enwedig oedolion mewn oed (gyda materon iechyd penodol) yn gallu bod yn fater difrifol. Gofynnwn i chi, felly, i ddilyn canllawiau meddygol ac osgoi cysylltiad gyda pherthnasau oedrannus neu fregus gan bod yr ysgol ar agor a gwersi yn parhau er bod camau penodol mewn lle fel y nodir isod:

- Ni fydd gwasanaethau ysgol gyfan yn cael eu cynnal yn foreol
- Ni fydd unrhyw nosweithiau rhieni na nosweithiau arbennig yn cael eu cynnal
- Ni fydd y disgyblion yn defnyddio scanners bysedd ar gyfer fenthyg llyfrau o'r llyfrgell
- Ni fydd y disgyblion yn defnyddio scanners bysedd er mwyn talu am ginio – byddant yn hytrach yn rhoi eu manylion ar y tiliâu er mwyn osgoi unrhyw gyffyrddiad bys
- Bydd amser cinio yn cael ei ymestyn i leihau gorlenwi ffreutur yr ysgol
- Bydd pob cystadleuaeth chwaraeon yn cael ei ohirio am gyfnod yn dilyn cyngor y cymdeithasau chwaraeon
- Bydd gwersi PAG yn cael eu gohirio am gyfnod er y bydd mynediad trwy Google Classrooms
- Bydd gwersi Amaeth yn cael eu cynnal ar safle'r ysgol am gyfnod
- Bydd triapiau dyddiol o'r safle yn cael eu gohirio ar hyn o bryd
- Byddwn yn parhau i ddarparu sebon ymhob ystafell ymolchi
- Byddwn yn parhau i ddarparu 'hand sanitisers' ger mynediad y ffreutur
- Byddwn yn annog y disgyblion, ar lafar a thrwy bosteri i ymolchi eu dwylo ac yn eu cynghori ar hylendid yn gyffredinol
- Mae trefniadau glanhau o fewn yr ysgol wedi eu gwella ymhellach.

Rhaid ystyried y posibilrwydd, wrth gwrs, y bydd cau yr ysgol yn anochel yn ystod yr wythnosau nesaf. Er mwyn paratoi ar gyfer digwyddiad o'r fath, rydym yn y broses o goladu copiau caled ac ar-lein o adnoddau dysgu gan gynnwys adnoddau adolygu ar gyfer disgyblion sydd ar fin cychwyn arholiadau allanol. Rydym wedi cael ein cynghori bod Cymwysterau Cymru yn cadw llygad gofalus ar y sefyllfa a byddwn mewn cysylltiad parhaol gyda CBAC ynglŷn ag unrhyw gyngor pellach.

Rydym wedi gofyn i staff i beidio mynychu cyfarfodydd neu ddigwyddiadau a allai fynd â nhw allan o'r ysgol er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd addysgu cyfredol i'n dysgwyr.

Gofynnwn yn garedig i chi gysylltu gyda ni os ydych chi'n penderfynu ynysu eich plant adref gan bod yn rhaid i ni ymateb yn ddyddiol i'r Sir ar unrhyw absenoldebau sy'n gysylltiedig â Covid-19.

A fyddai'n bosibl i chi gadw llygad ar ein gwefannau cymdeithasol a ParentPay er mwyn ein bod yn medru rhannu diweddariadau gyda chi. Gofynnwn i chi i osgoi cysylltu gyda'r swyddfa i ofyn am wybodaeth gan y byddwn yn eich diweddarau ar-lein. Gofynnwn i chi hefyd i sicrhau bod eich manylion cyswllt yn gyfredol er mwyn i ni fedru cysylltu gyda chi os oes problem yn codi.

Gofynnwn am eich cydweithrediad ac amynedd yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Yr eiddoch yn gywir,

Dr Llinos Jones  
Pennaeth



16<sup>th</sup> of March 2020

Dear parent / guardian,

**Re: Coronavirus (COVID-19)**

At Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin, we take the health and safety of our pupils and staff very seriously and obviously the current situation is worrying for yourself and us as a school. Whilst there have been no reported cases at the school to date, we wish to reassure you that measures are being taken to safeguard our community.

Evidence shows, however, that this virus has little effect on children. However, as a school, we are aware that transmitting the virus to adults, especially older adults (with particular health issues) can be a serious issue. We, therefore, ask you to follow medical guidelines and avoid contact with elderly or frail relatives as the school is open and lessons continue. We will be ensuring that specific steps, set out below, are in place:

- Whole school assemblies will not be held
- There will be no parents' evenings or special events held
- Pupils will not use finger scanners in order to borrow books from the school library
- Pupils will not use finger scanners to pay for lunch - instead they will provide their details at the tills to avoid any finger contact
- All sports competitions will be postponed for a period of time
- PAG lessons will be suspended for a period, although pupils will be able to access work on Google Classrooms
- Agriculture lessons will be held on the school site for a while
- Daily trips from the site are currently being postponed
- We will continue to provide soap in every toilet block
- We will continue to provide hand sanitisers near to both canteen entrances
- We will encourage pupils, both verbally and through displaying posters, to wash their hands and advise them on general hygiene
- Cleaning arrangements within the school have been further enhanced.

Consideration must be given to the possibility, of course, that closing the school will be inevitable in the coming weeks. In preparation for such an event, we are in the process of collating hard and online copies of teaching resources, including revision resources for pupils about to start external examinations. We have been advised that Qualifications Wales is monitoring the situation and we will remain in regular contact with the WJEC regarding any further advice and updates.

We kindly ask that you contact us if you decide to isolate your children at home, as we must respond on a daily basis to the County on any absences associated with Covid-19.

Could you please keep an eye on our social media sites and ParentPay so that we can share updates. Please avoid contacting the school office for information, as we will update you on any new information online. Could you please also ensure that all your contact details are correct if we need to contact you urgently.

Thank you for your understanding and cooperation as we continue to work together to provide a safe environment for our school community.

Yours faithfully

Dr Llinos Jones  
Headteacher